O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2019 Rhif (Cy. )

# ADDYSG, CYMRU

# Gorchymyn Ciniawau Ysgol a Llaeth am Ddim (Credyd Cynhwysol) (Cymru) 2019

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhagnodi amodau at ddibenion adran 512ZB o Ddeddf Addysg 1996 (p. 56).

Mae erthygl 2 yn ymdrin â'r cyswllt rhwng cael y budd-dal nawdd cymdeithasol o'r enw "credyd cynhwysol" a chymhwystra i gael cinio ysgol a llaeth am ddim. Mae'n darparu, pan fo person ("C") neu riant C yn cael credyd cynhwysol ar neu ar ôl 1 Ebrill 2019 ac na fo ganddo incwm sy'n fwy na swm cymwysadwy penodedig yn y cyfnod perthnasol yn union cyn dyddiad y cais am ginio ysgol am ddim, y daw o fewn adran 512ZB(4) (paragraffau (1) a (2)). Mae paragraffau (3)(a) a (b) yn diffinio "incwm a enillir" at ddibenion paragraffau (1) a (2). Mae paragraff (3)(c) yn darparu y gall y cyfnod perthnasol, mewn unrhyw achos penodol, fod yn un cyfnod asesu credyd cynhwysol, 2 gyfnod o'r fath neu 3 chyfnod o'r fath – ac y bydd pob un yn denu, fel trothwy, swm cymwysadwy gwahanol o incwm, (yn seiliedig ar ddeuddegfedau o incwm blynyddol cyfatebol o £7,400). Mae personau o fewn adran 512ZB(4) yn gymwys i gael ciniawau ysgol a llaeth am ddim pan wnaed cais ganddynt (neu ar eu rhan).

Mae erthygl 3 yn gwneud darpariaethau darfodol mewn perthynas â pherson (C) sy'n gymwys i gael cinio ysgol a llaeth am ddim yn rhinwedd bodloni amodau penodol o dan adran 512ZB(4) o Ddeddf Addysg 1996. Mae erthygl 3 yn darparu, pan fo hawlogaeth gan C i gael cinio ysgol am ddim mewn achosion penodedig yn rhinwedd bod yn gymwys i gael budd-daliadau nawdd cymdeithasol penodol, fod yr hawlogaeth honno yn peidio ar y diwrnod peidio, sef pa un bynnag yw'r diweddaraf o (a) 31 Rhagfyr 2023, a (b) cwblhau'r cam addysg yr oedd C ynddo ar 31 Rhagfyr 2023.

Mae erthygl 4 yn dirymu Gorchymyn Ciniawau Ysgol a Llaeth am Ddim (Credyd Cynhwysol) (Cymru) 2013.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru argynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth y Gangen Lles Disgyblion, yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2019 Rhif (Cy. )

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Ciniawau Ysgol a Llaeth am Ddim (Credyd Cynhwysol) (Cymru) 2019

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *5 Chwefror 2019* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *6 Chwefror 2019* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2019* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 512ZB(4)(a)(ai), 512ZB(4)(b)(ai) a 568 o Ddeddf Addysg 1996(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ciniawau Ysgol a Llaeth am Ddim (Credyd Cynhwysol) (Cymru) 2019 a daw i rym ar 1 Ebrill 2019.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "credyd cynhwysol" ("*universal credit*") yw credyd cynhwysol sy'n daladwy o dan Ran 1 o Ddeddf Diwygio Lles 2012(**3**);

---

(**1**) 1996 p. 56. Mewnosodwyd adran 512ZB gan adran 201 o Ddeddf Addysg 2002. Mewnosodwyd is-adran (4)(a)(ai) gan adran 31 o Ddeddf Diwygio Lles 2012 a pharagraffau 37 a 39(a) o Atodlen 2 iddi. Mewnosodwyd is-adran (4)(b)(ai) gan adran 31 o Ddeddf Diwygio Lles 2012 a pharagraffau 37 a 39(b) o Atodlen 2 iddi.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**3**) 2012 p. 5.

mae i "cyfnod asesu" yr ystyr a roddir i "assessment period" gan reoliad 21 o Reoliadau 2013;

ystyr "Deddf 1996" ("*the 1996 Act*") yw Deddf Addysg 1996;

mae i "hunangyflogaeth elwaidd" yr ystyr a roddir i "gainful self-employment" gan reoliad 64 o Reoliadau 2013; ac

ystyr "Rheoliadau 2013" ("*the 2013 Regulations*") yw Rheoliadau Credyd Cynhwysol 2013(**1**).

### Amgylchiadau rhagnodedig: cael credyd cynhwysol

**2.**—(1) Yr amgylchiadau a ragnodir(**2**) at ddibenion adran 512ZB(4)(a)(ai) o Ddeddf 1996 yw—

(a) bod rhiant C, ar neu ar ôl 1 Ebrill 2019, yn cael credyd cynhwysol, a

(b) bod gan riant C, yn y cyfnod asesu perthnasol, incwm a enillir nad yw'n fwy na'r swm cymwysadwy.

(2) Yr amgylchiadau a ragnodir at ddibenion adran 512ZB(4)(b)(ai) o Ddeddf 1996 yw—

(a) bod C, ar neu ar ôl 1 Ebrill 2019, yn cael credyd cynhwysol, a

(b) bod gan C, yn y cyfnod asesu perthnasol, incwm a enillir nad yw'n fwy na'r swm cymwysadwy.

(3) At ddibenion paragraffau (1) a (2)—

(a) mae'r diffiniad o "earned income" ("incwm a enillir") o dan reoliad 52 o Reoliadau 2013(**3**) yn gymwys yn ddarostyngedig i is-baragraff (b);

(b) pan fo hawlydd, mewn unrhyw gyfnod asesu, mewn hunangyflogaeth elwaidd, nid yw rheoliad 62(**4**) o Reoliadau 2013 yn gymwys at ddibenion cyfrifo incwm a enillir person o dan reoliad 52(b) o'r Rheoliadau hynny;

(c) y cyfnod asesu perthnasol a'r swm cymwysadwy yw'r rhai y cyfeirir atynt yn y

---

(**1**) O.S. 2013/376.

(**2**) Yn rhinwedd adran 512 o Ddeddf Addysg 1996, ystyr "prescribed" ("a ragnodir") yn adran 512ZB yw wedi ei ragnodi gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn.

(**3**) Mae Pennod 2 o Ran 6 o Reoliadau 2013 yn ymwneud ag incwm a enillir at ddiben cyfrifo dyfarndal o gredyd cynhwysol.

(**4**) Mae'r rheoliad hwn yn darparu, pan fo hawlydd, mewn unrhyw gyfnod asesu, mewn hunangyflogaeth elwaidd a phan fo incwm a enillir yr hawlydd mewn cysylltiad â'r cyfnod asesu hwnnw yn llai na'r isafswm terfyn incwm, fod yr hawlydd i'w drin fel pe bai bod ganddo incwm a enillir sy'n hafal i'r isafswm terfyn incwm.

paragraffau a ganlyn fel y rhai sy’n gymwysadwy—

(i) ac eithrio pan fo paragraffau (ii) neu (iii) yn gymwys, pan fo gan y rhiant incwm a enillir nad oedd yn fwy na £616.67 yn y cyfnod asesu credyd cynhwysol yn union cyn dyddiad y cais am bryd ysgol am ddim (cyfnod 1)—

(aa) y cyfnod asesu perthnasol yw cyfnod 1; a

(bb) y swm cymwysadwy yw £616.67;

(ii) mae’r paragraff hwn yn gymwys pan na fo paragraff (i) yn gymwys oherwydd yr eir yn fwy na’r swm cymwysadwy y cyfeirir ato yn y paragraff hwnnw a bod cyfnod asesu credyd cynhwysol (cyfnod 2) yn union cyn cyfnod 1 y cyfeirir ato yn y paragraff hwnnw—

(aa) y cyfnod asesu perthnasol yw swm cyfnod 1 a chyfnod 2; a

(bb) y swm cymwysadwy yw £1,233.34;

(iii) mae’r paragraff hwn yn gymwys pan na fo paragraff (ii) yn gymwys oherwydd yr eir yn fwy na’r swm cymwysadwy y cyfeirir ato yn y paragraff hwnnw a bod cyfnod asesu credyd cynhwysol (cyfnod 3) yn union cyn cyfnod 2 y cyfeirir ato yn y paragraff hwnnw—

(aa) y cyfnod asesu perthnasol yw swm cyfnod 1, cyfnod 2 a chyfnod 3; a

(bb) y swm cymwysadwy yw £1,850;

(d) pan fo C neu, yn ôl y digwydd, riant C—

(i) yn aelod o gwpl sydd wedi gwneud hawliad ar y cyd am gredyd cynhwysol ac sydd â hawlogaeth i gredyd cynhwysol; neu

(ii) yn aelod o gwpl ond sydd wedi hawlio credyd cynhwysol, a sydd â hawlogaeth iddo, fel person sengl,

mae cyfeiriadau at symiau cymwysadwy ym mharagraffau (i) i (iii) o is-baragraff (c) i’w darllen fel cyfeiriadau at incwm cyfunol y cwpl.

**Darpariaethau darfodol**

**3.**—(1) O dan yr amgylchiadau y cyfeirir atynt ym mharagraffau (2) i (4), mae cymhwystra C i gael cinio ysgol am ddim yn peidio ar y diwrnod peidio.

(2) O ran C—

(a) pan na fo'n dod yn gymwys, ar neu ar ôl 1 Ebrill 2019, i gael cinio ysgol am ddim yn unol â pharagraff (a)(ai) neu (b)(ai) o is-adran (4) o adran 512ZB o Ddeddf 1996, ond

(b) ei fod yn gymwys ar 31 Mawrth 2019, neu yn dod yn gymwys ar ôl y dyddiad hwnnw, i gael cinio o'r fath yn unol â pharagraffau (a)(i) i (iia), (aa), (b)(i) i (iia) neu (c)(ii) o'r is-adran honno.

(3) Pan oedd C yn gymwys i gael cinio ysgol am ddim yn unol yn unol â pharagraff (a)(ai) neu (b)(ai) o is-adran (4) o adran 512ZB o Ddeddf 1996 ar 31 Mawrth 2019 pa un a yw'r darpariaethau hynny wedi hynny yn peidio â bod yn gymwys mewn perthynas ag C ai peidio.

(4) Pan fo C yn dod yn gymwys i gael cinio ysgol am ddim yn unol â pharagraff (a)(ai) neu (b)(ai) o is-adran (4) o adran 512ZB o Ddeddf 1996 ar neu ar ôl 1 Ebrill 2019 pa un a yw'r darpariaethau hynny wedi hynny yn peidio â bod yn gymwys mewn perthynas ag C ai peidio ac ni waeth pa un a oedd C yn gymwys felly cyn hynny yn unol â pharagraffau (a)(i) i (iia), (aa), (b)(i) i (iia) neu (c)(ii) o'r is-adran honno.

(5) Y diwrnod peidio yw'r diweddaraf o—

(a) 31 Rhagfyr 2023; a

(b) y diwrnod y mae—

(i) C yn cwblhau addysg gynradd fel y diffinnir "primary education" yn adran 2 o Ddeddf 1996 (os oedd C ar y cam addysg hwnnw ar 31 Rhagfyr 2023);

(ii) C yn cwblhau addysg uwchradd fel y diffinnir "secondary education" yn yr adran honno (os oedd C ar y cam addysg hwnnw ar 31 Rhagfyr 2023).

**Dirymu**

**4.** Mae Gorchymyn Ciniawau Ysgol a Llaeth am Ddim (Credyd Cynhwysol) (Cymru) 2013(**1**) wedi ei ddirymu.

*Kirsty Williams*
Y Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru
*5 Chwefror 2019*

(**1**) O.S. 2013/2021 (Cy. 199).